OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2011 Rhif 2514 (Cy. 276)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Rhydaman, Sir Gaerfyrddin) (Amrywiol Gyfyngiadau Aros) 2011

*Gwnaed* *20 Hydref 2011*

*Yn dod i rym* *31 Hydref 2011*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer Cefnffordd yr A483 Abertawe i Fanceinion (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd"), drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adrannau 1(1), 2(1) a (2), 4(2) a 124 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 a pharagraff 27 o Atodlen 9 iddi(1) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1984"), ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys, yn gwneud y Gorchymyn hwn:-

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 31 Hydref 2011. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A483 (Rhydaman, Sir Gaerfyrddin) (Amrywiol Gyfyngiadau Aros) 2011.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

mae i "bathodyn person anabl" ("*disabled person's badge*") yr ystyr a roddir iddo yn Rheoliad 2 o Rheoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur (Cymru) 2000(2);

mae i "disg parcio" ("*parking disc*") yr ystyr a roddir iddo yn Rheoliad 8(5) o Reoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000(3);

(2) At ddiben y Gorchymyn hwn bernir bod cerbyd yn arddangos:-

(i) bathodyn person anabl yn y man priodol:-

(a) yn achos cerbyd ac iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r bathodyn yn cael ei arddangos ar

y panel neu'r dangosfwrdd fel bod Rhan 1 o'r bathodyn yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; neu

(b) yn achos cerbyd nad oes iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r bathodyn yn cael ei arddangos mewn lle amlwg yn y cerbyd neu arno fel bod Rhan 1 o'r bathodyn yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; a

(ii) mae disg parcio yn y lle perthnasol:-

(a) yn achos cerbyd ac iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r disg yn cael ei arddangos ar y panel neu'r dangosfwrdd fel bod y cyfnod o chwarter awr pan ddechreuodd y cyfnod aros yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd; neu

(b) yn achos cerbyd nad oes iddo banel deialau neu ddangosfwrdd, os yw'r disg yn cael ei arddangos mewn lle amlwg yn y cerbyd neu arno fel bod y cyfnod o chwarter awr pan ddechreuodd y cyfnod aros yn eglur ac yn ddarllenadwy o'r tu allan i'r cerbyd.

(3) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

3. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 8(1)(a), (c), (ch), (d), (dd) ac (e), ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu, swyddog traffig neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros, llwytho na dadlwytho ar ymylon y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

4. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 8(1)(a), (b), (c), (ch), (d), (dd), (e) a (2), ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu, swyddog traffig neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar ymyl y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

5. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 8(1)(a), (b), (c), (ch), (d), (dd) ac (e), ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu, swyddog

traffig neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio tacsi, aros ar ymyl y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn.

6. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 8(1)(a), (b), (c), (ch), (d), (dd) ac (e), ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu, swyddog traffig neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio i lwytho neu ddadlwytho, rhwng 09:00 o'r gloch a 17:00 o'r gloch ar unrhyw ddiwrnod ac eithrio dydd Sul, aros ar ymylon y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4 i'r Gorchymyn hwn

7. Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 8(1)(a), (b), (c), (ch), (d), (dd) ac (e) a (3), ni chaiff neb, ac eithrio yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu, swyddog traffig neu swyddog gorfodi sifil, beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd sy'n arddangos bathodyn person anabl, aros ar ymyl y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 5.

8. (1) Nid oes dim yn erthyglau , 4, 5, 6 a 7, a 3 ac eithrio 8(1)(b), yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beri neu i ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn cyhyd ag sy'n angenrheidiol i alluogi:-

(a) person i fynd i mewn i gerbyd, neu i ddod allan ohono;

(b) nwyddau i gael eu llwytho ar y cerbyd neu eu dadlwytho ohono;

(c) y cerbyd, os na ellir ei ddefnyddio'n hwylus at y diben hwnnw ar unrhyw ffordd arall, i gael ei ddefnyddio, mewn cysylltiad ag unrhyw un o'r gweithrediadau canlynol, sef: -

i. gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;

ii. symud unrhyw rwystr i draffig;

iii. cynnal-a-chadw, gwella neu ailadeiladu'r darnau hynny o’r gefnffordd; neu

iv. gosod, codi, newid neu drwsio, y darnau hynny o'r gefnffordd neu ar dir cyfagos iddynt, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw offer ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw linell delegraffig fel y'i